OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 484 (Cy. 41)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015

Gwnaed - - - -	*3 Mawrth 2015*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Mawrth 2015*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 17, 19(3) a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag athrawon ysgol yng Nghymru.

Dirymu a darpariaeth drosiannol

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r Rheoliadau a bennir yn y golofn gyntaf o'r tabl yn Atodlen 1 wedi eu dirymu i'r graddau a ddynodir yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 1.

(2) Rhaid trin person a oedd, yn union cyn 1 Ebrill 2015, yn ymgymryd â chyfnod sefydlu yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005(**2**) ("Rheoliadau 2005"), fel pe bai o'r dyddiad hwnnw, yn ymgymryd â chyfnod sefydlu yn unol â'r Rheoliadau hyn, a rhaid trin unrhyw beth a wnaed o dan Reoliadau 2005 fel pe bai wedi ei wneud o dan y Rheoliadau hyn.

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2014 dccc 5.
(**2**) O.S. 2005/1818 (Cy. 146) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2811 (Cy. 238), O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2012/724 (Cy. 96) ac O.S. 2012/1675 (Cy. 216).

ystyr "athro neu athrawes gofrestredig" ("*registered teacher*") yw person a gafodd awdurdodiad i addysgu yn unol â pharagraffau 12 i 18 o Atodlen 2 i Reoliadau 1999 cyn 1 Medi 2004;

ystyr "athro neu athrawes gyflenwi" ("*supply teacher*") yw athro neu athrawes a gyflogir yn gyfan gwbl neu yn bennaf at ddibenion goruchwylio neu addysgu disgyblion nad yw eu hathro neu athrawes reolaidd ar gael i'w haddysgu;

ystyr "athro neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yw person sy'n bodloni'r gofynion sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 132 o Ddeddf 2002;

ystyr "athro neu athrawes raddedig" ("*graduate teacher*") yw person a gafodd awdurdodiad i addysgu yn unol â pharagraffau 5 i 11 o Atodlen 2 i Reoliadau 1999 cyn 1 Medi 2004;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod lleol yng Nghymru;

mae "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yn cynnwys blwyddyn academaidd coleg AB;

ystyr "coleg AB" ("*FE college*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach yn unol â'r diffiniad yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**3**);

mae i "corff llywodraethu" mewn perthynas â choleg AB yr un ystyr ag sydd i "governing body" yn adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

ystyr "corff priodol" ("*appropriate body*") yw'r corff priodol o dan reoliad 5;

ystyr "cyflogwr" ("*employer*") yw awdurdod, corff llywodraethu neu berson arall sy'n cymryd person ymlaen, neu'n gwneud trefniadau i'w gymryd ymlaen, i ddarparu ei wasanaethau fel athro neu athrawes o dan gontract cyflogaeth, neu rywfodd arall ac eithrio o dan gontract

cyflogaeth, a rhaid dehongli "cyflogedig" ("*employed*") a "cyflogaeth" ("*employment*") ac unrhyw ymadroddion sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth yn unol â hynny;

mae i "cyfnod allweddol" yr ystyr a roddir i "key stage" yn adran 103(1) o Ddeddf 2002;

ystyr "cyfnod sefydlu" ("*induction period*") yw cyfnod sefydlu sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor y Gweithlu Addysg;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**4**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**5**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Addysg (Cymru) 2014;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn yr ystyr a roddir i "*bank holiday*" yn Neddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**6**);

ystyr "diwrnod ysgol" ("*school day*") mewn perthynas ag ysgol yw unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno, ac mewn perthynas â choleg AB unrhyw ddiwrnod pan fydd y coleg yn cyfarfod;

mae "pennaeth" ("*head teacher*") yn cynnwys pennaeth coleg AB;

(**3**) 1992 p.13 .
(**4**) 1998 p.31.
(**5**) 2002 p.32.
(**6**) 1971 p.80.

ystyr "Rheoliadau 1999" ("*the 1999 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**7**);

ystyr "Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol" ("*the School Teachers' Qualifications Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2012(**8**);

ystyr "Rheoliadau Sefydlu Lloegr" ("*England's Induction Regulations*") yw rheoliadau a wneir o bryd i'w gilydd o dan adran 135A o Ddeddf 2002(**9**) mewn perthynas ag athrawon yn Lloegr;

ystyr "sefydliad" ("*institution*") yw ysgol berthnasol, ysgol annibynnol neu goleg AB lle y ceir ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan y Rheoliadau hyn, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

mae i "sesiwn ysgol" ("*school session*") yr un ystyr ag a roddir iddo yn rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**10**);

mae "tymor ysgol" ("*school term*") yn cynnwys tymor coleg AB;

mae i "ysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "*special school*" yn adran 337(1) o Ddeddf 1996(**11**);

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol arbennig nad yw'n ysgol arbennig gymunedol nac yn ysgol arbennig sefydledig;

ystyr "ysgol berthnasol" ("*relevant school*") yw ysgol sy'n cael ei chynnal gan awdurdod neu ysgol arbennig nas cynhelir.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person wedi cwblhau cyfnod sefydlu pan fydd y person hwnnw wedi ymgymryd â chyfnod sefydlu o—

(a) tri thymor ysgol; neu

(b) o unrhyw hyd arall a benderfynir yn unol â rheoliad 8(4) (gan gynnwys, yn unig, gyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu o dan reoliad 9); ac

os yw'r corff priodol yn estyn y cyfnod sefydlu yn unol â rheoliad 10, cyfnod yr estyniad hwnnw.

Torri terfynau amser

4. Nid yw methiant gan unrhyw berson i gyflawni unrhyw ddyletswydd o fewn terfyn amser a bennir yn y Rheoliadau hyn yn rhyddhau'r person hwnnw o'r ddyletswydd honno.

Corff priodol

5.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) y corff priodol mewn perthynas ag ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir (ym mhob achos o fewn ystyr y termau cyfatebol Saesneg yn Neddf 1998) yw'r awdurdod sy'n ei chynnal;

(b) y corff priodol mewn perthynas ag ysgol arbennig nas cynhelir yw'r awdurdod ar gyfer yr ardal y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddi;

(c) y corff priodol mewn perthynas ag ysgol annibynnol yw—

(i) awdurdod, neu

(ii) pa bynnag bersonau neu gorff a benderfynir gan Weinidogion Cymru, a rhaid i'r personau hynny neu'r corff hwnnw gynnwys, fel aelod, gynrychiolydd awdurdod, a

(**7**) O.S. 1999/2817 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy. 158), O.S. 2002/2938 (Cy. 279), O.S. 2003/140 (Cy. 12), O.S. 2004/1729 (Cy. 173), O.S. 2004/1744 (Cy. 183), O.S. 2004/2733 (Cy. 240), O.S. 2006/873 (Cy. 81), O.S. 2010/1142 (Cy. 101) ac O.S. 2012/724 (Cy. 96).
(**8**) O.S. 2012/724 (Cy. 96).
(**9**) Mewnosodwyd adran 135A o Ddeddf Addysg 2002 gan adran 9 o Ddeddf Addysg 2011 (p.21).
(**10**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S. 2011/149 (Cy. 33) ac O.S. 2012/248 (Cy. 41).
(**11**) 1996. p.56.

(d) y corff priodol mewn perthynas â choleg AB yw awdurdod.

(2) Mae unrhyw gwestiwn ynglŷn â pha un yw'r corff priodol at y diben o arfer unrhyw swyddogaethau a osodir ar gorff priodol neu a roddir iddo gan y Rheoliadau hyn, mewn achos lle mae person yn ymgymryd â'i gyfnod sefydlu mewn mwy nag un sefydliad, i gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru.

Gofyniad i ymgymryd â chyfnod sefydlu

6. Yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn Atodlen 2, ni chaniateir cyflogi neb ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 fel athro neu athrawes mewn ysgol berthnasol onid yw'r person hwnnw wedi cwblhau'n foddhaol gyfnod sefydlu yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Sefydliadau y ceir ymgymryd â chyfnod sefydlu ynddynt

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), yn y canlynol yn unig y ceir ymgymryd â chyfnod sefydlu—

(a) ysgol berthnasol yng Nghymru ac eithrio ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig a sefydlwyd mewn ysbyty; neu

(b) yn yr amgylchiadau a bennir ym mharagraff (3), ysgol annibynnol yng Nghymru; neu

(c) yn yr amgylchiadau a bennir ym mharagraff (4), coleg AB yng Nghymru; neu

(d) ysgol neu goleg AB yn Lloegr lle y ceir ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan Reoliadau Sefydlu Lloegr.

(2) Ni cheir ymgymryd â chyfnod sefydlu yn y canlynol—

(a) ysgol yng Nghymru y mae'r amgylchiadau a ddisgrifir yn seiliau 6 neu 8 yn adran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**12**) yn gymwys mewn perthynas â hi, oni bai—

(i) bod y person o dan sylw wedi dechrau ei gyfnod sefydlu neu wedi'i gyflogi fel athro neu athrawes raddedig neu athro neu athrawes gofrestredig neu ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn yr ysgol ar adeg pan nad oedd amgylchiadau o'r fath yn gymwys, neu

(ii) bod un o Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru wedi ardystio yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon bod yr ysgol yn addas at ddibenion darparu goruchwyliaeth a hyfforddiant sefydlu, neu

(b) uned cyfeirio disgyblion.

(3) Yr amgylchiadau pan gaiff person ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn ysgol annibynnol yw'r canlynol—

(a) yn achos person a gyflogir i addysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol tri neu bedwar, bod cwricwlwm yr ysgol ar gyfer disgyblion y cyfnodau allweddol hynny yn cynnwys yr holl bynciau craidd a'r holl bynciau sylfaen eraill a bennwyd mewn perthynas â chyfnodau allweddol tri a phedwar yn adran 105(2) a (3) ac adran 106(2) a (3) o Ddeddf 2002, y cyflogir y person hwnnw i'w haddysgu; a

(b) ym mhob achos, bod y cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig yng nghyfnodau allweddol un a dau yn bodloni gofynion adran 105(1) o Ddeddf 2002 (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru), ac eithrio mewn perthynas â threfniadau asesu; ac

(c) ym mhob achos, cyn dechrau'r cyfnod sefydlu, bod perchennog yr ysgol a naill ai awdurdod neu'r personau neu'r corff a benderfynir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad

(**12**) 2013 dccc 1.

5(1)(c) wedi cytuno bod yr awdurdod neu'r personau neu'r corff, yn ôl fel y digwydd, i weithredu fel y corff priodol mewn perthynas â'r ysgol.

(4) Ni chaiff person ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn coleg AB yng Nghymru oni fydd corff llywodraethu'r coleg ac awdurdod wedi cytuno, cyn dechrau'r cyfnod sefydlu, fod yr awdurdod i weithredu fel y corff priodol mewn perthynas â'r coleg.

(5) Ni chaiff person ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn dau neu ragor o sefydliadau yr un pryd oni fydd penaethiaid yr holl sefydliadau wedi cytuno, cyn i'r cyfnod sefydlu ddechrau, pa un ohonynt sydd i weithredu fel y pennaeth arweiniol.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae "cyfnod sefydlu" ("*induction period*") yn cynnwys rhan o gyfnod sefydlu.

Hyd cyfnod sefydlu

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), tri thymor ysgol fydd hyd cyfnod sefydlu ("y rheol tri thymor").

(2) At y diben o gyfrifo hyd y cyfnod sefydlu, caiff tymor ysgol fod naill ai'n un tymor ysgol neu'n ddau hanner tymor sydd (gan ddiystyru gwyliau) yn digwydd yn olynol.

(3) Nid yw'r rheol tri thymor yn gymwys yn yr amgylchiadau canlynol—

(a) pan ymgymerir â'r cyfnod sefydlu mewn sefydliad lle nad yw'r flwyddyn ysgol yn cynnwys tri thymor ysgol;

(b) pan ymgymerir â chyfnod sefydlu gan berson mewn gwasanaeth rhan-amser;

(c) pan ymgymerir â chyfnod sefydlu mewn dau neu ragor o sefydliadau ar yr un pryd;

(d) pan fo unrhyw gyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu yn cynnwys cyfnod o lai nag un tymor ysgol; neu

(e) pan nad yw'n briodol, ym marn y corff priodol, i'r rheol tri thymor fod yn gymwys.

(4) Hyd y cyfnod sefydlu pan nad yw'r rheol tri thymor yn gymwys yw—

(a) pan fo paragraff (3)(d) yn gymwys, 380 o sesiynau ysgol; a

(b) ym mhob achos arall, y cyfryw hyd a benderfynir gan y corff priodol, ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw'n llai na chyfwerth â 380 o sesiynau ysgol neu 3 thymor ysgol.

Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu

9.—(1) Yr unig gyfnodau o gyflogaeth fel athro neu athrawes gymwysedig ar neu ar ôl 1 Medi 2003 ond cyn 1 Ebrill 2015 sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu yw'r canlynol—

(a) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo nad yw'n llai nag un tymor ysgol o ran ei hyd;

(b) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad neu sefydliadau yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo neu iddynt o ddau hanner tymor ysgol sydd (gan ddiystyru gwyliau) yn digwydd yn olynol;

(c) yn achos athro neu athrawes unigol, cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddynt o unrhyw hyd arall, sy'n briodol ym marn y corff priodol; neu

(d) cyfnod o gyflogaeth mewn ysgol neu goleg AB yn Lloegr os byddai'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu o dan Reoliadau Sefydlu Lloegr.

(2) Yr unig gyfnodau o gyflogaeth fel athro neu athrawes gymwysedig ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu yw'r canlynol—